# RHEOLI COETIROEDD FFERM YNG NGHYMRU

## CANLLAW RHAGARWEINIOL

Mae gorchudd coetiroedd a choedwigoedd yng Nghymru gyfwerth ag oddeutu 306,000ha.

*O'r cyfanswm hwn, mae:*


- 91,500ha yn goetiroedd hynafol (coetiroedd hynafol lled naturiol a safleoedd hynafol wedi'u plannu) 30%
- 52,005ha yn goetiroedd brodorol heb fod yn hynafol 17%
- 162,495ha yn goetiroedd anfrodorol 53%
- Mae Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn gorchuddio ardal oddeutu 40%
- Perchnogaeth arall oddeutu 60%: *Mae oddeutu hanner hyn yn goetir fferm sy'n cynnwys parseli llai o goedwigoedd, felly maent yn rhan bwysig o adnodd coetir Cymru*

Mae arferion rheoli nid yn unig yn darparu cyflenwad o bren a chynnyrch coed – byddant hefyd yn cynnal amrywiaeth o ran cynefinoedd sy'n bwysig ar gyfer gwytnwch coedwigoedd.

Mae rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn ddull rheoli rhagweithiol gan berchnogion a rheolwyr i sicrhau mwy o fuddion o ran cynhyrchiant ac iechyd coetiroedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae rheoli coedwigoedd yn rhagweithiol yn bwysig er mwyn cynyddu eu gwytnwch wrth wynebu bygythiadau megis plâu a chlefydau.

Mae'r rhan fwyaf o goetiroedd llydanddail yng Nghymru'n cynnwys un neu fwy o'r rhywogaethau canlynol: derw, onnen, ffawydd, masarn, bedw, ceirios, cyll, gwern, criafol, draenen wen a chelyn. Maen nhw'n tyfu fel coed unigol neu rywogaethau cymysg, wedi'u casglu ynghyd ar lethrau dyffryn lle nad oedd modd defnyddio aradr yn y gorffennol, gan greu'r coetiroedd yr ydym ni'n eu cysylltu'n aml gyda thirwedd Cymru.

Mae'r canllaw hwn yn gyflwyniad a rhagarweiniad i gyfres o ganllawiau a fydd yn helpu perchnogion coetiroedd i ddod i adnabod eu coetiroedd.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

GARDDWRIAETH HORTICULTURE